**Cofnodion Cyfarfod**
**Cyngor Ieuenctid Ceredigion**
**Siambr y Cyngor, Penmorfa**
**Dydd Gwener 03 Chwefror 2023**

(10:00 – 13.45)

**Yn bresennol:**

Ysgol Gyfun Aberaeron
Ysgol Gyfun Aberaeron ac ASI SIDU
Ysgol Bro Pedr
Ysgol Bro Pedr
Ysgol Bro Pedr
Ysgol Bro Pedr
Ysgol Gyfun Penweddig
Ysgol Gyfun Penweddig
Ysgol Gyfun Penweddig
Ysgol Gyfun Penweddig
Ysgol Bro Teifi
Ysgol Bro Teifi
Ysgol Bro Teifi
Ysgol Bro Teifi
Ysgol Penglais
Ysgol Penglais
Ysgol Henry Richard
Ysgol Henry Richard
Cenhadon Cymunedol Aberystwyth a Choleg Ceredigion

**Yn Bresennol hefyd:** Gwion Bowen (Cadeirydd a Swyddog Cyfranogiad Plant a Phobl Ifanc, Gwaith Ieuenctid a'r Gwasanaeth Ymgysylltu), Lowri Evans (Rheolwr Tîm, Gwaith Ieuenctid a'r Gwasanaeth Ymgysylltu – Cyngor Sir Ceredigion), Elen James (Swyddog Arweiniol Corfforaethol, Porth Cymorth Cynnar – Cyngor Sir Ceredigion), Gethin Jones (Rheolwr Corfforaethol, Gwasanaeth Cymorth ac Atal – Cyngor Sir Ceredigion), Y Cynghorydd Wyn Thomas (Aelod Cabinet dros Ysgolion, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau) a'r Cynghorydd Alun Williams (Dirprwy Arweinydd y Cyngor ac Aelod Cabinet dros Wasanaethau Gydol Oes a Lles)

**Siaradwyr:** Rhidian Harries (Rheolwr Tîm, Canolfan Lles Canolbarth a De Ceredigion – Cyngor Sir Ceredigion), Becca Head a Devion McKenzie (Area 43) a Carys Huntly (Swyddog Cydraddoldeb a Chynhwysiant – Cyngor Sir Ceredigion)

**Ymddiheuriadau:** Lloyd Warburton (ASI - Senedd Cymru), (Cenhadon Cymunedol Aberystwyth a Choleg Ceredigion), (Ysgol Uwchradd Aberteifi), (Ysgol Uwchradd Aberteifi), (Ysgol Penglais) ac (Ysgol Gyfun Aberaeron)

**Agenda y Cyfarfod:**

Agenda Cyngor Ieuenctid 03.02.23.do

## COFNODION

### 1 Croeso, Ymddiheuriadau a Chyflwyniadau

Agorodd Gwion Bowen y cyfarfod trwy estyn croeso i'r Cyngor Ieuenctid i'r Siambr.

Cyflwynodd aelodau'r Cyngor Ieuenctid eu hunain, gan nodi pa ysgolion / sefydliadau y maent yn eu cynrychioli.  Cyflwynodd eraill a oedd yn bresennol eu hunain, gan nodi eu rolau.

Nodwyd yr ymddiheuriadau.

Hysbysodd GB y Cyngor Ieuenctid o'r trefniadau ymarferol.

- Siaradwyr
- Dyfeisiau cyfieithu
- Allanfeydd Tân
- Toiledau
- Cinio a lluniaeth

Esboniodd GB y bydd cofrestr yn mynd o gwmpas yn ystod y cyfarfod er mwyn i'r aelodau ei llenwi.

### 2 Ethol Cadeirydd y Cyngor Ieuenctid ar gyfer 2022/23

O ganlyniad i gyfyngiadau amser, ni fu modd cynnal yr etholiad am Gadeirydd y Cyngor Ieuenctid yn ystod y cyfarfod diwethaf.

Cafwyd cyflwyniad byr gan GB i esbonio rôl Cadeirydd y Cyngor Ieuenctid a'r prif ddyletswyddau sy'n gysylltiedig â'r rôl.

Etholiad Cadeirydd Cyngor Ieuenctid 202.

Bu cyfle i unrhyw aelodau yr oedd ganddynt ddiddordeb mewn sefyll mewn etholiad, i roi anerchiad 30 eiliad gan rannu pam eu bod yn teimlo eu bod yn ymgeisydd addas i gynrychioli Cyngor Ieuenctid Ceredigion fel eu Cadeirydd ar gyfer 2022-23.

Mae gan bob aelod 1 pleidlais a dylid rhoi'r pleidleisiau yn y blwch pleidleisio yn nhu blaen y Siambr.

Gofynnwyd i'r rhai a oedd yn dymuno sefyll i godi eu dwylo, ac roedd 3 o aelodau'r Cyngor Ieuenctid wedi gwneud hynny.

1. Ioan Evans (Ysgol Gyfun Aberaeron)
2. Michael Bray (Ysgol Penglais)
3. Ifan Meredith (Ysgol Bro Pedr)

Cyhoeddir enw'r ymgeisydd llwyddiannus ar ôl cinio.

*Ar ôl cinio, cyhoeddwyd enw'r ymgeisydd llwyddiannus, ac estynnwyd llongyfarchiadau iddo.*

Etholwyd **Ifan Meredith (Ysgol Bro Pedr)** yn Gadeirydd Cyngor Ieuenctid Ceredigion ar gyfer 2022-23 a chadeiriodd weddill y cyfarfod ar ôl cinio.

## 3 Gweithdai: Is-Grwpiau yr Amgylchedd ac Urddas Mislif

**Estynnwyd gwahoddiad i aelodau newydd y Cyngor Ieuenctid ddewis mynychu un o ddau is-grŵp, gan gymryd rhan yn yr un y byddent yn ei ddewis.**

Rhannwyd y Cyngor Ieuenctid er mwyn cynnal dau weithdy is-grŵp, gan barhau gyda'r gwaith a gynhaliwyd yn ystod cyfarfod diwethaf y Cyngor Ieuenctid ac yn ystod cyfarfodydd dilynol ers hynny.

Yn ystod y cyfarfod, bu is-grŵp yr amgylchedd yn canolbwyntio ar gytuno ar y Cylch Gorchwyl drafft arfaethedig ar gyfer yr is-grŵp newydd a gaiff ei ddiwygio ar ôl cael adborth y grŵp. Cynhelir cyfarfod nesaf yr is-grŵp ar 13 Mawrth ar Teams HWB. Bydd y cyfarfod hwn yn gyfle i aelodau drafod blaenoriaeth amgylcheddol ar gyfer yr is-grŵp ar gyfer y flwyddyn academaidd i ddod.

Draft Environment Sub-group Terms of R

Bu'r is-grŵp urddas mislif yn adolygu ei gynnydd, gan benderfynu ar ba gynhyrchion mislif i'w prynu ar gyfer ysgolion a grwpiau cymunedol. Yn ogystal, bu'r grŵp yn trafod lleoliadau cynhyrchion mislif mewn ysgolion, a syniadau ynghylch y ffordd orau o'u dosbarthu i ddisgyblion.

## 4 Diweddariad gan Aelod Senedd Ieuenctid Cymru – Gwybodaeth

Roedd Lloyd Warburton (ASI) yn absennol o'r cyfarfod, felly ni rannwyd diweddariad.

## 5 Diweddariad gan ASI Ceredigion yn Senedd Ieuenctid y Deyrnas Unedig (SIDU) – Gwybodaeth

Rhoddodd Aled Lewis (ASI) ddiweddariad am ei waith ar ôl iddo gael ei ethol yn ASI ar gyfer Ceredigion o fewn SIDU.

Yn ddiweddar, cyfarfu Aled gyda Ben Lake AS; Y Cynghorydd Bryan Davies, Arweinydd Cyngor Sir Ceredigion; Y Cynghorydd Wyn Thomas; Aelod Cabinet dros Ysgolion, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau ac Elen James; Swyddog Arweiniol Corfforaethol, Cyngor Sir Ceredigion. Rhoddodd Aled ddiweddariad i'r aelodau am yr hyn a drafodwyd. Mae'r argyfwng costau byw yn uchel ar agenda AS Ceredigion, ac mae materion sy'n ymwneud â'r argyfwng costau byw, megis biliau ynni sy'n codi, wedi cael eu codi gan Ben Lake AS yn y senedd. Roedd y materion eraill a drafodwyd yn cynnwys; trafnidiaeth, plismona a'r

| | |
|---|---|
| | berthynas rhwng yr heddlu a phobl ifanc, ‘stopio a chwilio’ yng Ngheredigion, addysg a phrofiad gwaith ar gyfer pobl ifanc.<br><br>Gofynnodd IE am wybodaeth bellach am drafnidiaeth, ac adleisiwyd hyn gan MB a gododd mater yr amser o’r dydd y bydd rhai bysiau yn dychwelyd, yn enwedig i bentrefi gwledig. Soniodd MB am y problemau y mae pobl ifanc yn eu hwynebu yn arbennig, sef na fyddant yn aml yn gallu cymryd rhan mewn gweithgareddau ar ôl ysgol neu ryngweithio mewn ffordd gymdeithasol gyda ffrindiau ar ôl ysgol gan bod y bws olaf yn gadael am 5.30pm, ac fe fyddai o gymorth pe bai bysiau hwyrach, er mwyn osgoi rhai pobl ifanc yn cael eu gwahardd o’r cyfleoedd hyn, nad ydynt yn effeithio ar rai o’u cymheiriaid sy’n byw yn y prif drefi efallai neu nad oes ganddynt ffordd o gyrraedd gartref heb ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus. Cytunodd AL gyda’r pwyntiau hyn, ac esboniodd bod hwn yn rhywbeth a godwyd yn ystod y cyfarfod ac sy’n cael ei gydnabod fel rhwystr ar gyfer pobl ifanc. Soniodd AL am syniad posibl y byddai modd ei beilota mewn un ysgol neu ardal, lle y caiff llwybr bws ei drefnu a bod gweithgareddau yn yr ysgol neu’r ardal honno yn cael eu darparu ar y noson honno, er mwyn gweld a fyddai hyn yn helpu’r rhai nad ydynt yn gallu cymryd rhan ar hyn o bryd. Nododd disgyblion Ysgol Henry Richard bod trafnidiaeth a chyrraedd gartref o glybiau ar ôl ysgol yn rhywbeth y maent yn ei weld yn eu hardal nhw. At hynny, soniodd IM am broblem bosibl sef nad yw bysiau ysgol ar gael ar gyfer rhai pobl ifanc eraill, er enghraifft myfyrwyr coleg, pan fydd bws yn rhedeg, ac a oes unrhyw ddatrysiadau ar gyfer hyn. Dywedodd AL y bydd yn parhau i gydweithio â swyddogion er mwyn cyfleu’r hyn sy’n bwysig i bobl ifanc. |
| **6** | **Canolfan Lles Llanbedr Pont Steffan** |
| | Yn ystod cyfarfod diwethaf y Cyngor Ieuenctid, cytunwyd gwahodd swyddog o Wasanaethau y Canolfannau Lles i roi diweddariad am y datblygiad yn y cyfarfod hwn.<br><br>Roedd Rhidian Harries yn bresennol fel Rheolwr Tîm y Ganolfan Lles; Canolbarth a De Ceredigion, a rhoddodd gyflwyniad a oedd yn dangos y diben a’r cynnydd sydd wedi cael ei sicrhau wrth drawsnewid Canolfan Hamdden Llanbedr Pont Steffan yn Hyb Lles ehangach, gan gynnig buddion iechyd a ffitrwydd a buddion cymunedol ehangach.<br><br>Cyflwyniad Canolfan Lles Llambed Wellbei<br><br>Esboniodd RhH bod yr Ystafell Ieuenctid yn cael ei datblygu ac y bydd arlunydd graffiti yn dod i mewn i greu darn o waith celf pwrpasol ar gyfer y lle gyda disgyblion o Ysgol Bro Pedr. Yn anffodus, oherwydd y gwaith adeiladu sy’n mynd rhagddo yn y lleoliad, ni fydd disgyblion yn gallu mynd i mewn i wneud y gwaith paentio, ond byddant yn gyfrifol am ddewis y dyluniad.<br><br>Diolchodd LJ i RhH am y cyflwyniad a’r diweddariad, ac roedd yn teimlo ei fod yn cynnig dealltwriaeth well i bobl ifanc o gynnydd y datblygiad. Holodd IM a fyddai’r Ystafell Ieuenctid ar gael yn ystod oriau ysgol, gan nad oes gan fyfyrwyr y chweched dosbarth Ysgol Bro Pedr ystafell gyffredin yn yr ysgol ar hyn o bryd. Esboniodd RhH y byddai ganddynt ddiddordeb mewn cael sgwrs gyda’r ysgol ynghylch sut y byddai modd ei |

defnyddio, gan sicrhau iechyd a diogelwch disgyblion a defnyddwyr y ganolfan yn ystod y cyfnod hwn.

**7 Cyflwyno Ymgyrch Pynciau Llosg Pobl Ifanc Ceredigion ar gyfer 2023**

Cyflwynodd GB Ymgyrch Pynciau Llosg Ceredigion ar gyfer 2023, gan rannu ychydig wybodaeth am gefndir ymgyrch Gwneud Eich Marc, a gynhaliwyd yng Ngheredigion ers sawl blynedd gan Gyngor Ieuenctid Prydain. O ganlyniad i newidiadau i raglen flynyddol Cyngor Ieuenctid Prydain, esboniodd GB nad yw hi'n glir a gynhelir ymgyrch Gwneud Eich Marc eleni neu beidio.

Canlyniadau MYM 2022.pptx

Felly, penderfynwyd y bydd Ceredigion yn creu pleidlais leol, gan ddilyn ffurf tebyg i'r ffurf GEM swyddogol, a fydd yn cynnig y cyfle i bobl ifanc bleidleisio am faterion sy'n bwysig iddyn nhw. Bydd canlyniadau'r bleidlais hon yn cynnig sylfaen ar gyfer digwyddiad Pawb a'i Farn eleni, a hefyd, bydd yn llywio gwaith ymgyrchu arall gyda'r ASIau. Bydd angen enw ar yr ymgyrch leol, a dewisir ei phynciau llosg heddiw gan aelodau'r Cyngor Ieuenctid. Gofynnodd GB i'r aelodau ddechrau ystyried yr hyn sy'n bwysig yn eu barn nhw dros ginio. Ar ôl diffinio'r pynciau, bydd GB yn creu ac yn dosbarthu'r papurau pleidleisio i'r holl Ysgolion Uwchradd, UCD, Coleg Ceredigion, HCT a grwpiau gwirfoddol eraill erbyn diwedd mis Chwefror 2023. Cynhelir y bleidlais am bythefnos, yna bydd y canlyniadau ar gael erbyn cyfarfod nesaf y Cyngor Ieuenctid ar 17/03/23.

**8 Ymgynghoriad: Prosiect 'Dyfodol Ni' y Gronfa Gymunedol**

Roedd Becca a Devion yn bresennol o Area 43, Aberteifi. Rhoddont ychydig wybodaeth gefndirol am brosiect 'Dyfodol Ni', a ariannir gan Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol. Darparir y prosiect ar gyfer pobl ifanc, gan bobl ifanc a chaiff Pwyllgor Rheoli Pobl Ifanc ei ffurfio i'w lywio, o'r gweithgarwch ymgynghori i'r broses o wneud penderfyniadau.

Dyfodol Ni ENG.pdf

Holodd Becca; **Beth fyddwch chi'n ei wneud ar ôl ysgol?**

Roedd yr atebion yn cynnwys chwaraeon fel hoci, pêl-droed, rygbi a mynd i'r gampfa.

Yn gyffredinol, roedd pobl ifanc yn rhannu'r argraff bod cryn dipyn i bobl ifanc ei wneud ar ôl ysgol, ond mynediad i drafnidiaeth a'r ffordd o gyrraedd gartref o glybiau a gweithgareddau yw'r prif rwystr.

Awgrymodd IM y byddai mwy o feysydd chwarae 3G o fudd i bobl ifanc.

Holodd Becca; **A oes unrhyw un wedi bod i Glwb Ieuenctid o'r blaen?**

Dywedodd aelodau o Ysgol Henry Richard yr arferent fynychu clwb coginio ar ôl ysgol, sydd bellach wedi dod i ben.  Yn gyffredinol, dywedodd yr holl aelodau eraill nad oeddent wedi mynychu Clwb Ieuenctid o'r blaen.

Holodd Becca;  **Yn eich barn chi, beth fyddai modd ei wella ar gyfer pobl ifanc?**

Awgrymodd yr aelodau;  lle anffurfiol i ddal i fyny gyda gwaith cartref, cyfathrebu gydag ysgolion am Glybiau Ieuenctid, caffis cymunedol er mwyn cael lle i eistedd a siarad gyda ffrindiau, hysbysebu gan gynnwys ar gyfryngau cymdeithasol a thaflenni hysbysebu, mannau dros dro mewn trefi lle y gallwch aros am ychydig.

Diolchodd Becca i'r Cyngor Ieuenctid am rannu eu meddyliau.




| 9 | **Ymgynghoriad ar Gynllun Llesiant Lleol Ceredigion 2023 - 2028** |
|---|---|


Cyflwynodd Carys Huntly, Swyddog Cydraddoldeb a Chynhwysiant Cyngor Sir Ceredigion, ymgynghoriad y Cynllun Llesiant Lleol i'r Cyngor Ieuenctid, gan esbonio pwysigrwydd casglu safbwyntiau pobl ifanc er mwyn sicrhau bod y Cynllun Llesiant yn adlewyrchu anghenion yr holl breswylwyr sy'n byw yng Ngheredigion.


BGC-PSB.pptx

Rhannwyd y Cyngor Ieuenctid yn 5 grŵp a than drefniant carwsél, cawsant y cyfle i roi adborth am y blaenoriaethau allweddol canlynol;

- Byddwn yn mynd i'r afael â chaledi a thlodi wrth ymateb i'r argyfwng costau byw
- Byddwn yn lleihau llygredd er mwyn gwella ansawdd aer, dŵr a'r amgylchedd
- Byddwn yn dathlu'r iaith Gymraeg ac amrywiaeth ddiwylliannol yn ein cymunedau
- Byddwn yn gweithio gyda chi i wella eich amgylchedd lleol a'ch mannau cymunedol
- Byddwn yn helpu i roi'r sgiliau angenrheidiol i chi ar gyfer swyddi yn y dyfodol, gan gynnwys swyddi gwyrdd, ac yn cynnig o mwy o brentisiaethau





Holodd CH i'r aelodau rannu unrhyw sylwadau pellach a gesglir yn ystod yr ymgynghoriad ar nodiadau post-it i'w gosod ar y wal cyn diwedd cyfarfod y Cyngor Ieuenctid.



20230207 - Youth Council Consultation I

Cadeiriwyd y gweithdy hwn gan Ifan Meredith, a bu'n ystyried y pynciau llosg a gaiff eu cynnwys yn y papurau pleidleisio ar gyfer y gwaith ymgyrchu lleol eleni.

Rhannwyd 13 pwnc yn y lle cyntaf fel rhai sy'n bwysig i bobl ifanc yng Ngheredigion, ac yna roedd angen ffurfio rhestr llai o faint a fyddai'n cynnwys tua 8 pwnc llosg.



Trafodaeth a Thaflu Syniadau;

1. **Costau Byw** (codiadau mewn prisiau ynni, cost tanwydd, trafnidiaeth a phrydau ysgol)
2. **Trafnidiaeth** (cost trafnidiaeth, llwybrau bws gwledig, diffyg bysiau sy'n rhedeg yn hwyrach gyda'r hwyr, y ffaith nad yw pob llwybr beicio yn hygyrch ac yn ddiogel, dim digon o ddefnydd yn cael ei wneud o rwydweithiau rheilffyrdd)
3. **Ail Gartrefi** (effaith ail gartrefi ar gymunedau lleol, sy'n codi'r prisiau ar gyfer pobl ifanc a theuluoedd lleol, prisiau rhent tai a fflatiau yn anfforddiadwy i bobl ifanc ar ôl iddynt orffen yn y brifysgol, diffyg tai llwyr mewn rhai ardaloedd o'r Sir, risg bod yn ddigartref i'r rhai sy'n gadael gofal gan bod diffyg tai fforddiadwy yn cynyddu. Effaith hyn ar addysg y rhai sy'n gadael gofal, os bydd y teulu yn chwalu neu os bydd trefniant gofal maeth yn methu, nid oes llety amgen addas ar gael ar gyfer pobl ifanc 17 ac 18 oed y mae ei angen arnynt, sy'n golygu bod perygl y byddant yn cael eu lletya mewn mannau anaddas neu'n cael eu gyrru o'r Sir)
4. **Yr iaith Gymraeg** (yr angen i hyrwyddo'r Gymraeg yn well mewn ysgolion dwyieithog er mwyn cyflawni'r targed o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050)
5. **Addysg a Sgiliau Bywyd** (yr angen am fwy o wersi ymarferol er mwyn eich helpu yn y dyfodol, pethau fel mecaneg, plymio, seicoleg a galwedigaethau eraill. Yr angen i bob disgybl gael eu haddysgu am seicoleg ymddygiadol, er mwyn helpu disgyblion i ddeall eu hemosiynau, a fydd yn eu helpu gyda'u hiechyd meddwl a'u lles. Mae angen rhoi mwy o ffocws ar sgiliau bywyd a lles mewn ysgolion, gan gynnwys rheoli arian)
6. **Newid Hinsawdd** (mwy o fannau gwyrdd fel parciau. Mwy o grantiau ar gyfer paneli solar i gartrefi, er mwyn lleihau cyfanswm y tanwydd ffosil a ddefnyddir a chynyddu ynni gwyrdd)
7. ~~**Sgiliau Bywyd** (cyfunwyd y pwnc hwn gyda rhif 5)~~
8. **Cydraddoldeb** (mwy o gyfleoedd i ferched gymryd rhan mewn chwaraeon mewn ysgolion ac yn y gymuned)
9. **Rhagfarn** (mynd i'r afael â rhagfarn yn erbyn grwpiau lleiafrifol neu sy'n cael eu tangynrychioli)
10. **Amrywiaeth o Swyddi** (diffyg swyddi ym mhob maes gwahanol yn rhwystr i bobl ifanc sy'n dymuno dychwelyd i Geredigion)
11. **Sgiliau Entrepreneuriaeth a Busnes** (yr angen i gynnig busnes ac entrepreneuriaeth mewn ysgolion er mwyn annog pobl ifanc i ddysgu am lwybrau gyrfa eraill nad ydynt yn rhai traddodiadol, megis hunangyflogaeth)
12. **Prentisiaethau a Phrofiad Gwaith** (ni chynigir profiad gwaith i ddisgyblion ysgol mwyach. Dylid gwella'r tâl a roddir i brentisiaid er mwyn annog mwy i ystyried y llwybr hwn. Nid yw prentisiaethau ar gael ym mhob maes, megis TGCh neu godio ac mae angen cael mwy o amrywiaeth er mwyn bodloni anghenion pobl ifanc)
13. **Stopio a Chwilio / Camddefnyddio Sylweddau** (tybiaeth pobl ifanc o'r heddlu a'r protocol stopio a chwilio yn ardal Dyfed Powys, yn ogystal â'r cynnydd mewn cyffuriau mewn cymunedau, sy'n effeithio ar bobl ifanc a theuluoedd)

Cynhaliwyd ymarfer 'pleidleisio gyda'ch traed' i leihau a blaenoriaethu'r 13 pwnc a nodwyd. O ganlyniad, dewiswyd yr 8 pwnc canlynol ar gyfer pleidlais eleni;

Rhifau; 12 / 8 / 5 / 4 / 3 / 2 / 1 / 11

| | |
|---|---|
| | |

| | |
|---|---|
| **10** | **Ymgyrch Pynciau Llosg Pobl Ifanc Ceredigion ar gyfer 2023** |
| **11** | **Rhannu Gwybodaeth a Dyddiad y Cyfarfod Nesaf** |
| | Rhannodd GB wybodaeth am eitemau Unrhyw Fater Arall;<br><br>• Ymgynghoriad 'Sgwrs' – CHTh Heddlu Dyfed Powys<br>• Gwarant i Bobl Ifanc – Llywodraeth Cymru<br><br>Rhannodd GB wybodaeth am y cyfarfod nesaf, a gynhelir unwaith eto yn y Siambr ar 17/03/2023.<br><br>Dyddiadau cyfarfodydd:<br><br>~~Cyfarfod 1; 21/10/22~~<br>~~Cyfarfod 2; 03/02/23~~<br>Cyfarfod 3; 17/03/23<br>Diwedd y tymor, Digwyddiad Pawb a'i Farn; 14/07/23<br><br>Gofynnodd GB i'r holl aelodau allgofnodi ar eu ffordd allan o Benmorfa, ac i aros am eu trafnidiaeth yn y dderbynfa.<br><br>Diolchodd GB i'r grŵp am gyfarfod cynhyrchiol a chadarnhaol o Gyngor Ieuenctid 2022-23.<br><br>*Cyflwynir cofnodion cyfarfodydd y Cyngor Ieuenctid i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau sy'n Dysgu ac i'r Cabinet Llawn, er mwyn sicrhau y caiff safbwyntiau pobl ifanc eu bwydo i'r broses ddemocrataidd yng Ngheredigion.* |